# Adroddiad Cyfarfod 13:12:23 Cinio Nadolig ac Alis Glyn

Bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig ym mwyty'r Felin, Pontrug eleni. Cafodd pawb eu plesio'n fawr gyda'r lluniaeth arbennig a chafwyd gwasanaeth caboledig gan staff y bwyty.

Cafwyd anerchiad byr gan Jen Roberts ein Llywydd cyn y gwledda gyda ychydig o newyddion lleol.

Rhoddwyd llongyfarchion i Mary Evans ar ddod yn hen nain unwaith eto. Mae Arron (mab Catrin) ac Erin wedi cael mab bach – Hari Cernyw.

Dymunwyd gwellahad buan i Falmai Owen wedi codwm ac anafu ei braich.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Margaret Williams (Tŷ Capel gynt). Bu'n aelod ffyddolon o'r gangen ac rydym yn cydymdeimlo a'i theulu.

Rhoddwyd llongyfarchion i dim Bethel 1 yn y Cwis Hwyl. Roedd dros 600 o aelodau ar draws Cymru wedi cymryd rhan yn y cwis a changen Dinbych daeth yn gyntaf. Daeth Mair Price, Mair Read a Gwenan Roberts yn gydradd ail gyda changhenau Penrhosgarnedd a Rhiwlas. Bu rhaid ateb cwestiwn datglwm ac yn dilyn hynny gosodwyd Cangen Bethel yn 4ydd trwy Gymru. Rydym yn falch iawn ohonyn nhw.

Llongyfarchiadau i Cécile Roberts ar ei chyfraniad i 'Cracyr Nadolig' Merched y Wawr ar Zoom. Bu Cécile yn sôn am ei magwriaeth yn Bordeaux a sut yr oedden nhw'n dathlu'r Nadolig. Erbyn hyn mae eitem Cécile ar YouTube (rhag ofn i chi ei fethu).

Wedi'r wledd cawsom ei diddannu gan Alis Glyn. Mae Alis yn ferch ifanc dalentog iawn o Gaernarfon. Mae'n ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Syr Hugh Owen a daeth atom yn syth o gyngerdd Nadolig yr ysgol lle y cymerodd rhan flaenllaw.

Mae Alis yn un o'r pedwar wnaeth gyrraedd y brig yng nghystadleuaeth Brwydyr y Bandiau BBC Radio Cymru yn ystod mis Awst 2023. Bu hefyd yn rhan o brosiect Merched yn Gwneud Miwsig ac mae i'w chlywed yn rheolaidd ar Radio Cymru. Mae ei cherddoriaeth i'w gael ar Spotify, Apple Music a YouTube. Yn ddiweddar rhyddhaodd ei EP gyntaf, a rhaid dweud fod pawb wedi eu cyfareddu gan ei thalent a'i llais swynol.